**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 7fed Ebrill 2021, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, A. S. Johnson, B.Jones, K. R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, T. Thomas, R. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 27. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn pecyn anarferol drwy'r post yn cynnwys troffi neu gwpan gyda'r geiriau 'Rhyl Eisteddfod 1907 Conductor of Prize Mixed Choir' wedi eu engrafu arni.

Daeth y cwpan gyda llythyr wedi ei arwyddo 'Redeemed of Canterbury' yn dweud bod y cwpan wedi ei 'rhyddhau' o dafarn yn Canterbury ym 1991, sydd wedi hen gau, ac mai eu dyhead bob amser oedd ei dychwelyd i'w chartref.

Dywedodd Clerc y Dref nad oedd Eisteddfod yn y Rhyl ym 1907 ac felly roedd yr eitem yn dipyn o ddirgelwch.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn adrodd i'r heddlu am y cwpan a'i chadw ym Mharlwr y Maer nes gellid canfod y perchennog iawn.*

## 28. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – CHWEFROR A MAWRTH 2021

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1105 | Cymdeithas Cymuned y Rhyl | 2,625.00 | Ffioedd Rheoli TNCC 20/21 Ch 4 |
| 1110 | Cyngor Sir Ddinbych | 32,622.00 | Benthyciad SC2 20/21 taliad 3 o 3 |
| 1111 | HSBC | 6.50 | Taliadau Banc 17/12/20 – 16/01/21 |
| 1112 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffi Reoli Ionawr 2021 |
| 985 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.67 | Swyddog Apeliadau 20/21 taliad 11 o 12 |
| 1113 | CThEM | 2,804.50 | Didyniadau PAYE Ionaawr 2021 |
| 1114 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,294.23 | Didyniadau pensiwn ac ariannu diffyg Ionawr 2021 |
| 1115 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,403.85 | Cyflogau Staff Chwefror 2021 |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£52,112.75** | |

| Categoru | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod | 23.57 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 0.77 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 0.77 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 0.77 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 0.77 |
| | **Cyfanswm incwm** | **£26.65** |

***RESOLVED*** *that the report was approved.*

## 29. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1136 | Sioned Graham-Cameron | Gwasanaethau Cyfieithu | 150.76 |
| | | **Cyfanswm** | **£150.76** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 30. CYNNIG I OSOD FEINYL AR ADEILADAU'R STRYD FAWR

Cyfeiriodd Clerc y Dref at gais Cyngor Sir Ddinbych i ychwanegu logo'r Cyngor Tref ar feinyl i'w gosod ar adeiladau lle mae gwaith yn mynd rhagddo ar y stryd fawr (dosbarthwyd gyda'r rhaglen) ac at ebost a anfonodd at yr holl aelodau iddynt ei ystyried.

Dywedodd Clerc y Dref ei fod wedi cael ymateb cymysg gan yr aelodau ac roedd yn gofyn am arweiniad pellach.

O roddi'r mater i bleidlais, ***PENDERFYNWYD*** bod y Cyngor Tref yn cymeradwyo cynnwys ei logo ar y feinyl.

**[Datganodd y Cynghorydd B. Jones fuddiant rhagfarnus yn yr eitem uchod gan ei fod yn dod o fewn ei bortffolio fel aelod o Gabinet Cyngor Sir Ddinbych, ac ni chymerodd ran yn y trafodaethau na'r pleidleisio ar y mater]**

## 31. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 32. ADOLYGIAD RISG BLYNYDDOL 2020/21 A CHYNLLUN AT Y DYFODOL 2021/22

Cyflwynodd Clerc y Dref adroddiad cyfrinachol yr Is-bwyllgor Asesu Risg (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) gan amlinellu'r gwaith yr oedd wedi ei wneud yn ystod 2020/21 a'i gynllun gwaith arfaethedig ar gyfer 2021/22, i'r aelodau eu cymeradwyo.

Mewn mater cysylltiedig, mynegodd aelod bryder ynglŷn â mynediad gan y cyhoedd i'r man chwarae a'r man gwyrdd ynghlwm wrth Glwb Rygbi'r Rhyl, pan gafodd ei greu gan ddefnyddio arian symiau neilltuedig.

***PENDRFYNWYD***:

*(i) cymeradwyo'r adolygiad a'r cynllun at y dyfodol.*

*(ii) bod Clerc y Dref yn cysylltu gyda'r swyddog symiau neilltuedig perthnasol yng Nghyngor Sir Ddinbych a gofyn am fynediad gan y cyhoedd i'r lle ac i arwyddion gael eu harddangos o gwmpas y safle i ddweud bod mynediad ar gael.*

*(iii) Bod Clerc y Dref yn ystyried y defnydd o symiau neilltuedig yn y dyfodol sy'n cael ei ystyried gan yr Is-bwyllgor Asesu Risg.*

## 33. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………